Croeso!

Croeso a diolch o galon am lawrlwytho'r pecyn gweithgareddau hwn.

Rydyn ni am i chi gael hwyl, pobi gyda'ch gilydd, , chwarae gyda'ch gilydd, chwerthin a ffurfio cysylltiad, a hynny wyneb yn wyneb neu trwy dechnoleg.

Rydych chi wedi dewis Pecyn Dal i Fyny Swyn y Sêr a Thân. Mae'r pecyn hwn yn ffordd ddifyr i'r ddau ohonoch chi ffurfio cysylltiad – pan na allwch fod gyda'ch gilydd wyneb yn wyneb. Felly cwtshwch lan dan y blancedi a pharatowch wledd! Mae'r pecyn hwn yn dangos i chi sut i drefnu digwyddiad arbennig i'ch gilydd a darganfod pwy sy'n gallu adeiladu'r gaer orau

Yn y pecyn hwn, cewch:

Wahoddiad rhithwir i'w anfon at ffrindiau, aelodau o'r teulu a chydweithwyr. Heriau a gweithgareddau sy'n hwyl, er mwyn i chi herio eich ffrindiau ac aelodau o'r teulu. Rysáit ar gyfer cacennau er mwyn i chi chwerthin a phobi gyda'ch gilydd - pwy yw seren y gegin? A chanllawiau addurno fel bod eich digwyddiad yn un arbennig

Felly, beth nesaf?:

Trefnwch ddyddiad gyda'r rheiny yr ydych eisiau iddyn nhw ymuno, ac anfon y ddolen at y pecyn i'w lawrlwytho atynt er mwy iddyn nhw ymuno yn yr hwyl. Cynlluniwch eich gwledd ac ewch i nôl yr eitemau. Mae gennym rysáit cacennau i chi ei thrïo, ac felly os ydych chi'n penderfynu ei defnyddio ewch i nôl y cynhwysion.
Pan ddaw'r dyddiad, dewch at eich gilydd, pobwch gyda'ch gilydd, gwnewch addurniadau a ffurfiwch gysylltiad. Beth am roi tro ar rai o'r gweithgareddau, a mwynhau bod yn greadigol ac yn gystadleuol?
Yna, gwleddwch ar yr holl ddanteithion wedi'r gwaith caled.
Yn olaf, cofiwch gael llawer o hwyl ac anfon lluniau o'ch helyntion atom ar ein cyfryngau cymdeithasol – Facebook, Twitter, ac Instagram @MessUpTheMessVdefnyddiwch #PIITK neu anfonwch e-bost at hello@messupthemess.co.uk, i ddweud sut brofiad oedd defnyddio'r pecyn.

Gair o gyngor
an y bobl ifanc:
Chwaraewch eich
hoff restr
chwarae
cerddoriaeth

Crëwyd y pecyn hwn ar y cyd â'r anhygoel blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o'r system ofal yn Abertawe, Gwasanaethau Plant Abertawe a Chwmni Theatr Mess Up The Mess, fel rhan o'r prosiect Well Iawn a ariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Roeddem yng nghanol cyfyngiadau symud Covid19 ac fe gafodd Mess Up The Mess y pleser o gwrdd â'r grŵp anhygoel o bobl ifanc sydd yn y system ofal, dros gyfarfodydd Zoom. Ffordd wahanol iawn o weithio - ond fe gawson ni lawer iawn o hwyl. Holwyd y bobl ifanc beth sy'n effeithio ar eu llesiant nhw ac eraill. Dywedon nhw eu bod yn gweld eisiau cysylltiad a sut y mae mor bwysig ein bod ni'n dechrau ffurfio mwy o gysylltiadau gyda ffrindiau ac aelodau'r teulu yn y dyfodol. Dywedon nhw hefyd fod eisiau rhywbeth yn ymwneud â bwyd!!! Dyma sut ddaeth y pecyn i fodolaeth. Buon ni'n gweithio gyda thîm talentog o artistiaid, a chynllunwyr cacennau, er mwyn gwireddu gweledigaeth y bobl ifanc. Mae'r bobl ifanc wedi bod yn hanfodol wrth gynllunio'r pecyn hwn, o'r dechrau i'r diwedd. Felly, oddi wrth y bobl ifanc, a phawb sy'n rhan o'r prosiect, gobeithiwn i chi wenu, chwerthin a chael gymaint o hwyl ag y cawson ni yn ystod y prosiect hwn.

Diolch yn arbennig i'r tîm ac i'r noddwyr:

Dylunydd: Bethany Seddon
Cynllunydd Pobi: Louise Waring - Y Gegin Maldod
Technolegydd Bwyd: Sarah Ivens – Canolfan Bwyd Cymru
Crewyr y Gweithgareddau: Amanda Baglow ac Alex Clatworthy - Circus Eruption
Hawliau Plant a Chyfranogiad i Blant a Phobl Ifanc sydd wedi cael Profiad o'r System Ofal mewn Gwasanaethau Plant: Tom Jones
Uned Ansawdd Gwasanaethau, Gwasanaethau Plant: Kim Evans
Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed: Michelle Flynn
Swyddog Celfyddydau Ieuenctid: Joanne Shackley – Cwmni Theatr Mess Up The Mess
Cyngor Abertawe
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Cymru
Cwmni Theatr Mess Up The Mes

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Ailfeithrin yn y Gegin yn cyflwyno,

Ddigwyddiad Dal i Fyny Swyn y Sêr a Thân

Dyma dy wahoddiad i ddigwyddiad Dal i Fyny Swyn y Sêr a Thân.

Dere draw ac fe gewn ni gyfle i bobi gyda'n gilydd, cael hwyl a dal i fyny!

Thema: Gwersylla - croeso i ti wisgo i fyny
Lleoliad: Ar-lein

Darluniwch ar eich pen.

Cam un – Cymerwch ddarn o bapur a beiro/pen ffelt

Cam dau – Dewiswch rywbeth i'r person arall ei ddarlunio

Cam tri – Gosodwch declyn amseru am 2 funud

Cam pedwar – Rhowch y papur ar eich pen a thrio eich gorau i ddarlunio'r gwrthrych yna

Cam pump – Unwaith fydd y teclyn amseru ar ben, edrychwch ar yr hyn rydych chi wedi ei greu a chwerthin

Cam chwech – yr enillydd yw'r un sydd wedi darlunio'r fersiwn agosaf o'r gwrthrych yna

Cam saith - os hoffech chi, rhowch deitl iddyn nhw a thynnu llun a'u hanfon at hello@messupthemess.co.uk neu tagiwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol gyda #PIITK

Addasu – Dewiswch rywbeth i chi'ch hun heb ddweud wrth y person arall. Unwaith fyddwch chi wedi gorffen darlunio, gadewch i'r person arall geisio dyfalu beth yw e'.

Unrhyw un moyn dishgled?

Cam un – Cymerwch fwg, bag/iau te a thâp mesur os oes un gennych.

Cam dau – Marciwch y pwynt taflu ar gyfer pob cystadleuydd gyda beth bynnag sydd gennych wrth law.

Cam tri - Mae pob un yn cael bag te a mwg. Y nod yw cael y bag te i mewn i'r mwg o'r pellter pellaf. Gall yr un sy'n taflu ddewis rhoi'r mwg mor bell ag y maen nhw'n credu y gallant daflu i mewn iddo a gall symud y mwg yn ystod yr amser ond rhaid taflu'r bag te o'r man taflu.

Cam pedwar - Mae gennych 10 munud i wneud hyn. Felly gosodwch eich teclyn amseru nawr.

Cam pump – unwaith fydd yr amser i fyny ar y teclyn amseru, mesurwch y pellter o'r man taflu i'r cwpan (os nad oes tâp mesur gennych gallwch wneud hyn gyda dwylo, traed (neu unrhyw ffordd arall allwch chi feddwl amdani!).

Cam chwech– Datgelwch eich mesuriadau! Y pellaf i ffwrdd sy'n ennill!

Creu Caer



Cam un – gosodwch declyn amseru am 30 munud a rhowch eich hoff ganeuon i chwarae.

Cam dau - defnyddiwch y gwrthrychau yn eich tŷ i greu'r babell/gaer dan do orau y gallwch chi ei chreu. Meddyliwch am y goleuadau, pethau clyd, pethau fydd eu hangen arnoch wrth wersylla.

Cam tri - ar ôl y 30 munud, datgelwch eich caer gampus a rhoi taith o'i hamgylch.

Cam pedwar – os hoffech chi, tynnwch lun a'i anfon at hello@messupthemess.co.uk neu tagiwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol gyda #PIITK

Cam pump – cymerwch eich hoff ddiod a dal i fyny o dan flanced glyd!

Cynhwysion

Cacen

40g o Bowdwr Coco

165g o Siwgr Mân

4 Llwy Fwrdd o Ddŵr Berw



175g o Fargarin



3 Wy

115g o Flawd Codi

Eisin

125g o Fenyn Heb Halen (Wedi'i Feddalu)

1-2 Lwy Fwrdd o Laeth Coch/ Melyn

250g o Siwgr Eisin

1-2 Lwy Fwrdd o Laeth



Llond Llaw o Pretzels

Blas Dewisol – e.e. Fanila / Croen Oren / Sudd Lemwn

Offer

Llwy fwrdd

Clorian

3 x Powlen Gymysgu

3 x Llwy Gymysgu

Tegell

12 x Casyn Cacennau Bach





Sgiwer / Fforc

Bag Peipio gyda Thrwyn Seren

Hambwrdd Pobi Cacennau Bach



Dull

1. Cynheswch y ffwrn i 200°c / Marc Nwy 6 a llenwch yr hambwrdd cacennau bach gyda'r casys.

2. Yn y bowlen gymysgu, cymysgwch y powdwr coco a'r dŵr berw i wneud past.

3. Ychwanegwch y margarin a chymysgwch yn dda nes ei fod yn hufennog.

4. Ychwanegwch yr wy a'i droi.

5. Ychwanegwch y siwgr a'i droi.

6. Ychwanegwch y blawd a throi'r gymysgedd nes ei bod yn llyfn.

7. Rhannwch y gymysgedd rhwng y 12 casyn.

8. Rhowch yr hambwrdd ar silff ganol y ffwrn a phobwch am 15-20 munud, nes bod sgiwer a osodir yng nghanol un o'r cacennau yn dod allan yn lân.

9. Rhowch y cacennau i'r naill ochr i oeri'n gyfan gwbl.

10. Mewn powlen gymysgu lân, curwch y menyn meddal nes ei fod yn olau ac yn hufennog.

11. Ychwanegwch y siwgr eisin a'i gymysgu nes ei fod yn llyfn, gan ychwanegu ychydig o laeth os yw'r eisin yn sych.

12. Ychwanegwch unrhyw flas a'i gymysgu'n dda.

13. Rhowch hanner yr eisin mewn powlen ar wahân.

14. Defnyddiwch ambell ddiferyn o'r lliw bwyd, gan liwio un bowlen o eisin yn goch a'r llall yn felyn.

15. Paratowch y bag peipio gyda'r trwyn seren, yna rhowch y ddau eisin ochr yn ochr yn y bag.

16. Peipiwch gylch eisin ar ben pob cacen.

17. Malwch y pretzels a'u gosod ar ben yr eisin, fel eu bod yn edrych fel coed tân.

18. Peipiwch dri fflam o eisin ar ben y pretzels i gwblhau'r tân.

Llen Sêr

Offer

Cerdyn/Cardfwrdd
Ffoil neu baent aur neu arian
Unrhyw addurniadau eraill
Glud
Teclyn Tyllu
Llinyn neu Ruban
Pinnau Bawd NEU Blu Tack

Beth i'w wneud

Argraffwch y 2 dudalen hyn os allwch chi, neu gallwch ddarlunio eich sêr eich hun. Darluniwch o amgylch y templedi neu greu llawer o sêr i lenwi'ch gofod. Torrwch o amgylch y sêr a thyllu twll ar y pen. Addurnwch eich sêr fel eu bod yn disgleirio. Mor uchel ag y gallwch chi ei wneud yn ddiogel, rhowch ddarn o linyn ar draws y man yr ydych yn bwriadu ei addurno (fu ôl i'r man lle byddwch yn gosod eich dyfais galwad fideo fyddai orau.)
Unwaith i chi hongian y llinyn, rhowch ddarnau o linyn o hyd amrywiol yn sownd wrth eich darn llorweddol, fel eu bod yn hongian yn fertigol, a glynwch y sêr fel eu bod yn hongian o'r llinell. Gallwch roi nifer o sêr yn sownd wrth yr un llinell fertigol hefyd. Os nad oes llinyn gennych, gallwch ddefnyddio Blu Tack neu binnau i'w gosod yn eu lle, neu addurno eich bwrdd.

Llen Sêr